

RHEOLWR DYNGARWCH DISGRIFIAD SWYDD

Lleoliad: Gweithio hybrid gyda chyfleusterau swyddfa ar gael ym Mangor / Aberduna

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Incwm, Aelodaeth ac Ymgysylltu

PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Arwain a datblygu rhaglen dyngarwch a chyfrannu unigol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gan greu incwm cynaliadwy drwy roddwyr gwerth canolig, ymgyrchoedd cyfrannu unigol, apeliadau codi arian, cyfraniadau cymynrodd a rhoddion er cof.

Bydd deiliad y swydd yn datblygu perthnasoedd ystyrlon gyda chefnogwyr, gan ddarparu gofal rhagorol a siwrneiau rhoddwyr sy'n ysbrydoli ymgysylltu a buddsoddi hirdymor yng nghenhadaeth Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Gan weithio ar y cyd â'r timau codi arian, aelodaeth, marchnata a chyfathrebu, bydd y Rheolwr Dyngarwch yn nodi cyfleoedd i gynyddu gwerth oes cefnogwyr a sicrhau'r budd gorau posibl o incwm dyngarol.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

Cyfrannu Unigol a Datblygu Rhoddwyr

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr i ddatblygu a chyflawni strategaeth gyfrannu unigol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gan gynyddu incwm gan roddwyr untro a rheolaidd.
- Adeiladu, rheoli a datblygu cyflenwad o gefnogwyr gwerth canolig a darpar roddwyr sy'n gallu cyfrannu rhoddion untro a rheolaidd.
- Adnabod, ymchwilio, meithrin, denu a gofalu am gefnogwyr unigol drwy gynlluniau ymgysylltu a rheoli perthnasoedd wedi'u teilwra.
- Ailymgysylltu â chefnogwyr sydd wedi rhoi'r gorau i gefnogi a datblygu strategaethau i drosi cefnogwyr newydd a phresennol yn gyfranwyr gwerth uwch.
- Darparu gofal rhagorol i roddwyr drwy ymgysylltu ysgrifenedig, dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Sicrhau bod pob cefnogwr yn derbyn gohebiaeth amserol, effeithiol a phersonol sy'n dangos gwerth eu cyfraniad.

Apeliadau a Chodi Arian ar gyfer Ymgyrchoedd

- Arwain y gwaith o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso apeliadau codi arian ar draws sianeli digidol ac all-lein.
- Gweithio'n agos gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i ddatblygu ymgyrchoedd codi arian ysgogol, apeliadau a siwrneiau cefnogwyr.
- Sicrhau bod unrhyw ohebiaeth codi arian yn dangos effaith rhoddion cefnogwyr yn effeithiol ac yn ysbrydoli ymgysylltu parhaus.
- Monitro a gwerthuso perfformiad ymgyrchoedd, gan ddefnyddio gwybodaeth a dysgu i wella gweithgarwch codi arian yn y dyfodol.

Cymynroddion a Rhoddion Er Cof

- Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglen codi arian drwy gymynroddion ac er cof Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Datblygu a gweithredu strategaethau i gynyddu addewidion cymynrodd ac ymwybyddiaeth o gymynroddion ymhlith cefnogwyr.
- Rheoli perthnasoedd gyda phobl sy'n addo cymynrodd a chymynwyr posibl mewn ffordd sensitif a phroffesiynol gyda ffocws ar y cefnogwyr.
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â rhoddion mewn ewyllysiau a rhoi er cof.
- Goruchwyllo gweinyddiaeth cymynroddion, gan weithio gyda chyfreithwyr, ysgutorion ac aelodau o'r teulu yn ôl yr angen.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gyda darparwyr ysgrifennu ewyllysiau, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a phartneriaid perthnasol eraill.
- Sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud ag addewidion cymynrodd, rhoddion er cof ac incwm cymynrodd yn cael eu cadw'n fanwl gywir a'u storio'n ddiogel.

Profiad Cefnogwyr a CRM

- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Data i sicrhau bod y system CRM yn cefnogi rheolaeth effeithiol ar berthnasoedd, gofal am roddwyr ac adrodd manwl gywir.
- Sicrhau bod cofnodion rhoddwyr, gweithgarwch ymgysylltu ac incwm yn cael eu cofnodi'n fanwl gywir ac yn gyson.
- Defnyddio data CRM, gwybodaeth am gefnogwyr a dadansoddiadau i nodi cyfleoedd ar gyfer twf a gwella perfformiad codi arian.
- Datblygu a gwella siwrneiau cefnogwyr i sicrhau cymaint ag y bo modd o gadw, ymgysylltu a gwerth am oes o ran cefnogwyr

Gweithio ar Draws Timau

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr Aelodaeth, Codi Arian, Marchnata a Chyfathrebu i ddarparu siwrneiau integredig i gefnogwyr.
- Cydweithredu gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i nodi cyfleoedd i gynnwys cefnogwyr mewn prosiectau, gwarchodfeydd, ymgyrchoedd a blaenoriaethau strategol.
- Cefnogi cydweithwyr i ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar y rhoddwyr o ymgysylltu a chodi arian.
- Cydweithredu gydag chydweithwyr ar draws mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur i rannu arfer gorau a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Cynllunio, Rheoli Cyllidebau ac Adrodd

- Arwain ar gyllidebu, rhagolygon a chynllunio incwm ar gyfer rhoddion unigol, apelïadau, cymynroddion a chodi arian er cof.
- Monitro perfformiad yn erbyn targedau a darparu adroddiadau rheolaidd, rhagolygon a diweddariadau.
- Rheoli cyllidebau gwariant yn effeithiol a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon i sicrhau'r elw gorau posibl ar fuddsoddiad.
- Paratoi adroddiadau a diweddariadau perfformiad ar gyfer uwch reolwyr, pwyllgorau ac ymddiriedolwyr yn ôl yr angen.

Cydymffurfiaeth ac Arfer Gorau

- Sicrhau bod yr holl weithgarwch codi arian yn cydymffurfio â deddfwriaeth codi arian, Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Codi Arian, GDPR a rheoliadau perthnasol eraill.
- Cefnogi'r Ymddiriedolaeth i gynnal safonau uchel o ran gofalu am gefnogwyr, diogelu data a moeseg codi arian.
- Sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn arfer gorau wrth godi arian a nodi cyfleoedd i gymhwyso arloesedd a dysgu yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Sicrhau bod yr holl weithgarwch codi arian yn adlewyrchu gwerthoedd ac ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i ddarparu profiad rhagorol i gefnogwyr.

Arweinyddiaeth Sefydliadol

- Hyrwyddo dyngarwch ac ymgysylltu â chefnogwyr ar draws y sefydliad.
- Hyrwyddo diwylliant sy'n gosod cefnogwyr wrth galon gweithgarwch codi arian a chyfathrebu.
- Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno strategaethau codi arian ac ymgysylltu sefydliadol.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill ac felly dylech fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt weithredu mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y'u nodir yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gosod a chynnal safonau personol uchel o ran effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'fedru gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.

RHEOLWR DYNGARWCH MANYLEB Y PERSON

Rhinweddau Personol

Hanfodol

- Eiriolwr angerddol dros adferiad byd natur a gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Ffocws ar gefnogwyr, gydag ymrwymiad didwyll i feithrin perthnasoedd ystyrlon a pharhaol gyda rhoddwyr.
- Rhagorol am feithrin perthnasoedd, yn gallu sefydlu hygyrddedd ac ymddiriedaeth gydag amrywiaeth eang o gefnogwyr a rhanddeiliaid.
- Yn llawn cymhellant ac yn rhagweithiol, gyda'r gallu i weithio'n annibynnol a chymryd perchnogaeth o amcanion codi arian.
- Gwydn a hyblyg, yn gallu rheoli blaenoriaethau cystadleuol ac ymateb yn gadarnhaol i amgylchiadau sy'n newid.
- Creadigol ac arloesol, gyda'r hyder i brofi dulliau newydd o weithredu a nodi cyfleoedd ar gyfer twf incwm.
- Cydweithredol ac yn canolbwyntio ar dîm, gyda pharodrwydd i weithio ar draws adrannau i gyflawni nodau a rennir.
- Sgiliau deallusrwydd emosiynol a rhyngbersonol cadarn, yn enwedig wrth weithio gyda chefnogwyr cymynroddion ac er cof.
- Sylw rhagorol i fanylder ac ymrwymiad i gyflawni gwaith o safon uchel.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Cymwyseddau Allweddol

Hanfodol

- Meithrin a rheoli perthnasoedd â rhoddwyr i sicrhau a thyfu incwm dyngarol.
- Datblygu a chyflawni strategaethau cyfrannu unigol ac ymgysylltu â chefnogwyr.
- Cynllunio a chyflawni apeliadau ac ymgyrchoedd codi arian llwyddiannus.
- Datblygu a gofalu am godi arian er cof a thrwy gymynroddion.
- Ymchwil i ragolygon, datblygu cyflenwad a meithrin rhoddwyr.
- Stiwardiaeth cyfranwyr a datblygu siwrnai cefnogwyr.
- Rheoli cyllidebau, ragolygon a monitro incwm.
- Defnydd effeithiol o systemau CRM a dadansoddi data cyfranwyr.
- Gweithio ar draws y sefydliad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gan gynnwys deunydd cyfathrebu sy'n darbwyllo ar gyfer codi arian.
- Blaenoriaethu, rheoli prosiectau a chyflawni yn erbyn targedau.
- Cydymffurfio â rheoliadau codi arian, GDPR a gofynion rheoli data cefnogwyr.

Profiad Hanfodol

- Profiad o sicrhau twf incwm drwy roi unigol, dyngarwch, aelodaeth, apeliadau codi arian neu ddisgyblaeth codi arian gysylltiedig.
- Profiad o reoli a gofalu am roddwyr drwy ddull sy'n seiliedig ar berthnasoedd o weithredu.
- Profiad o ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd neu apeliadau codi arian ar draws sianeli lluosog.
- Profiad o weithio gyda systemau CRM i reoli perthnasoedd cefnogwyr a gweithgarwch codi arian.
- Profiad o ddefnyddio gwybodaeth, data ac adrodd ar berfformiad rhoddwyr fel sail i wneud penderfyniadau.
- Profiad o ddatblygu siwrneiau cefnogwyr sy'n gwella'r cadw, yr ymgysylltu a'r gwerth am oes.
- Profiad o reoli cyllidebau codi arian, targedau incwm a gwariant.
- Profiad o gydweithredu gyda thimau marchnata a chyfathrebu.
- Profiad o gynhyrchu adroddiadau, rhagolygon a diweddariadau perfformiad ar gyfer uwch reolwyr a rhanddeiliaid.
- Profiad o weithio tuag at dargedau codi arian a chyflawni canlyniadau mesuradwy.
- Profiad o ddarparu gofal a stiwardiaeth ragorol i gefnogwyr.

Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol

- Dealltwriaeth gadarn o egwyddorion codi arian a dulliau codi arian sy'n canolbwyntio ar roddwyr.
- Gwybodaeth am arfer gorau o ran rhoi unigol, datblygu cefnogwyr a stiwardiaeth.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol, gan gynnwys y gallu i gynhyrchu testun codi arian a deunydd cyfathrebu ysgogol i gefnogwyr.
- Sgiliau cyfathrebu llafar a rheoli perthnasoedd rhagorol.
- Dealltwriaeth gadarn o systemau CRM a'u rôl mewn codi arian ac ymgysylltu â chefnogwyr.
- Y gallu i ddadansoddi data, nodi tueddiadau a gwneud argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Llythrennedd ariannol cadarn, gan gynnwys cyllidebu, rhagolygon a monitro incwm.
- Y gallu i reoli nifer o brosiectau a blaenoriaethau ar yr un pryd.
- Dealltwriaeth o GDPR, diogelu data a gofynion cyfrinachedd cefnogwyr.
- Gwybodaeth am ganllawiau'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac arferion gorau o ran codi arian.
- Sgiliau cynllunio, trefnu a datrys problemau cadarn.
- Y gallu i gyfathrebu effaith gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru mewn ffordd ysgogol ac ysbrydoledig.

Dymunol

- Sgiliau yn y Gymraeg neu werthfawrogiad o bwysigrwydd cyfathrebu dwyieithog yng Nghymru.

*Gwybodaeth at ddibenion yswiriant yn unig:
Canran y tasgau clerigol vs tasgau maniwal yn y rôl hon:
100% clerigol/0% maniwal*